

**Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
Cyfarfod ychwanegol parthed: Ymgynghoriad Llywodraeth
Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Caerdydd
10 Gorffennaf 2013**

Yn bresennol	Sefydliad
Eleanor Marks	Llywodraeth Cymru
Paul Dear	Llywodraeth Cymru
Emily Forbes	Llywodraeth Cymru
Samantha Cole	Llywodraeth Cymru
Graham Benfield	CGGC
Win Griffiths	CGGC
Andi Lyden	Ymddiriedolaeth Gofalwyr
Fran Targett	Cyngor ar Bopeth Cymru
Daniel Carpenter	VAW
Philip Avery	WSA
Heidi Bennett	BAVO
Derek Walker	Canolfan Cydweithredol Cymru
Rob Taylor	Age Cymru
Beverley Hampson	Gofal Canser y Fron
Claire Lawson	AWNW
Graham Price	Cyfanfyd

Ymddiheuriadau	Sefydliad
Barbara Natasegara	CJC
Jeanie Gray	Cadwch Gymru'n Daclus
Joy Kent	Chwarae Teg
Margaret Jervis	CGGC
Paul Glaze	CWYVS
Salah Mohamed	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Maggi Dawson	Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
John Puzey	Shelter Cymru
Derith Powell	CDC

1. Cyflwyniad

Croesawodd Eleanor Marks bawb i'r cyfarfod a gwnaed y cyflwyniadau.

2. Diweddariad am y Broses Ymgynghori

Rhoddodd Emily Forbes ddiweddariad byr am y broses ymgynghori hyd yn hyn. Roedd cyfarfodydd a gynhaliwyd eisoes wedi cynnwys tri gweithdy cyn-ymgynghori, tri digwyddiad ymgynghori cyhoeddus, seminar gwirfoddoli a chyfarfod arbennig o'r Is-Bwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth (i drafod adolygiad o'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector). Roedd Grŵp Cyfeirio wedi llywio'r broses ymgynghori yn ystod y camau cynnar a diolchwyd i aelodau'r grŵp hwnnw am eu cyfraniad.

3. Cyflwyniad Llywodraeth Cymru: Materion sy'n dod i'r amlwg

Rhoddodd Paul Dear gyflwyniad am faterion sy'n dod i'r amlwg ac arwyddion cynnar yn seiliedig ar ymatebion a wnaed drwy'r cyfarfodydd a digwyddiadau ymgynghori a'r ymatebion ffurfiol cynnar. Cyflwynwyd y rhain gyda'r cafeat cryf na fyddai'r ymgynghoriad yn cau tan 8 Awst, 2013, ac felly roedd 'canfyddiadau' ar hyn o bryd yn rhai dangosol ac yn amodol i newid, ond fe'u cynigiwyd yn y cyfarfod hwn i oleuo trafodaeth.

Seilwaith:

- Mae dull Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried fel un sy'n gweithio'n ormodol "o'r brig i lawr" nad yw'n rhoi cefnogaeth glir i, nac yn berthnasol i, sefydliadau lleol a chyd-nerthu cymunedol.
- Mae trefniadau presennol yn cuddio'r gwirionedd fod y rhan fwyaf o arian Seilwaith y Trydydd Sector yn mynd i'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol, CG a grantiau lleol, trwy CGGC.
- Mae consensws clir ynghylch yr angen parhaus am gorff cynrychioliadol cenedlaethol.
- Mae'r modd y dyrennir cyllid rhwng Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn seiliedig ar fformiwla hanesyddol ac wedi dyddio.
- Mae rhywfaint o awydd, ond nid awydd cyffredinol, am ymagwedd ranbarthol
- Mae'r cynnig i gael cronfa arloesi 10% wedi cael adolygiadau cymysg

Ymgysylltu:

- Amheuaeth sylweddol ynghylch effeithiolrwydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a pha ganlyniadau y mae'n eu cael.
- Pryderir hefyd ynghylch a yw'n cynrychioli'r trydydd sector ehangach yn ddigonol.
- Unwaith eto, mae ymdeimlad cyffredinol bod ein dull o ymgysylltu yn gweithio "o'r brig i lawr" ac yn cael ei lywodraethu gan nifer cymharol fach o sefydliadau mawr.
- Mae amrywiaeth o sefydliadau yn mynegi diddordeb mewn cysylltiadau cryfach gyda rhwydweithiau a strwythurau cenedlaethol.
- Ceir trafodaeth barhaus ynghylch rolau cyrff 'isadeiledd' a chyrrff 'ambarél' (hy arbenigol) i gefnogi'r trydydd sector.
- Mae cryn ofyn am gyfathrebu ac adborth mwy effeithiol gan aelodau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.
- Rhywfaint o gefnogaeth i gyfarfodydd rhanbarthol i annog ymgysylltiad â grwpiau lleol. Ymholiadau am ffiniau rhanbarthol.
- Mwy o ddefnydd o TG i wneud ymgysylltiad yn fwy deinamig a phellgyrhaeddol. (Cynhadledd fideo / Skype / rhwydweithio cymdeithasol).
- Cefnogaeth gref i barhau gyda chyfarfodydd Gweinidogol ("mae 2 gyfarfod y flwyddyn yn well na dim").
- Cydnabod bod angen i gyfarfodydd ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau a bod yn amserol.
- Rhywfaint o ddiddordeb mewn opsiynau eraill fel cyfarfodydd rhanbarthol, mwy o gyfarfodydd gyda swyddogion ac ati.

Compactau Lleol

- Mae'n ymddangos fod cefnogaeth i'r dull arfaethedig i gryfhau'r defnydd o Gompactau Lleol drwy well arweiniad a monitro.
- Os yw hyn yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd yr ymgynghoriad NI fyddem yn symud ymlaen gyda Bil Compactau.
- Mae rôl hanfodol Awdurdodau Lleol yn cael ei amlygu drwy gydol y broses hon.

4. Papur y Trydydd Sector - Adborth o gyfarfod Ymgynghori Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

Cyflwynodd Graham Benfield bapur a oedd yn rhoi adborth o gyfarfod ymgynghori Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol a oedd yn trafod Pennod 4 - Ymgysylltu. Gellir crynhoi'r pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Gallai ymgysylltu gael ei wella a'i gryfhau
- Mae angen nodi nodau ac agenda gyffredin yn glir, a awgrymwyd drwy'r 'Rhaglen ar gyfer Gweithredu'

5. Trafodaeth yn canolbwyntio ar Bennod 4: Ymgysylltu

Roedd Llywodraeth Cymru wedi paratoi papur i'w drafod ar Bennod 4 y ddogfen ymgynghori 'Parhad a Newid' a oedd yn canolbwyntio ar 'Ymgysylltu'. Roedd sylwadau a wnaed ar nodiadau post-it yn y tri digwyddiad ymgynghori cyhoeddus yn ymwneud â'r bennod hon wedi cael eu casglu a'u teipio air am air i roi rhywfaint o ddealltwriaeth o'r materion a oedd yn cael eu codi yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd y sylwadau wedi cael eu tynnu at ei gilydd o dan y penawdau canlynol:

- Ymgysylltu
- Cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Rhwydweithiau, cyfranogiad a chynrychiolaeth
- Adborth
- Atebolrwydd
- Dimensiwn Rhanbarthol
- Aelodaeth / dyluniad y ffrydiau gwaith
- Ffyrdd newydd o ymgysylltu drwy ffrydiau gwaith
- Cyfarfodydd Gweinidogol bob chwe mis
- Syniadau ar gyfer cyfarfodydd y Gweinidogion yn y dyfodol

Cafwyd trafodaeth fanwl yn dilyn eitemau 3, 4, a 5, yn cwmpasu llawer o wahanol agweddau ar y tair eitem.

Canolbwyntiwyd i ddechrau ar ddeialog a'r rhyngweithio rhwng y Trydydd Sector a Gweinidogion. Awgrymwyd y dylid cael cyswllt uniongyrchol rhwng ystod ehangach o bobl gyda Gweinidogion, ond yn aml roedd anawsterau ymarferol gyda'r rhyngweithio hwn. Roedd rôl strategol i'r sector yn ei sefydliad ei hun, drwy gyrff ambarél i gynnig gwybodaeth, cymorth a

chefnogaeth i'r sefydliadau a oedd angen hynny. Ond weithiau, roedd y sefydliadau ambarél hyn yn cael eu beirniadu am fod yn 'borthgeidwaid'.

Nodwyd y byddai'n anodd i 33,000 o sefydliadau ymgysylltu'n uniongyrchol ac y gallai rhwydweithio cymdeithasol helpu i gefnogi ymgysylltiad ehangach. Teimlid bod angen cydbwysedd gofalus rhwng beirniadaeth bod 'y grwpiau arferol' yn cael mynediad at y Gweinidogion, ac agor mynediad ehangach. Roedd her yn y berthynas rhwng cyrff ambarél a rhwydweithiau a sefydliadau llai eraill, o herwydd mae rhai sefydliadau llai yn teimlo nad yw eu llais yn cael ei gynrychioli ac mae hyn yn achosi problem. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn cynnwys 200 o sefydliadau ar hyn o bryd drwy'r rhwydwaith aelodaeth ac fe'i holwyd ynghylch faint ymhellach y gallai hyn fynd os oedd am aros yn ymarferol?

Amlygwyd y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng ymgysylltu a chefnogaeth. Teimlid bod ymgysylltu yn ymwneud â darparu cyfleoedd i bobl a sefydliadau gyfrannu eu barn; mae angen cymorth mewn rhai achosion lle mae amharoddrwydd neu ddiffyg gallu i ddefnyddio'r strwythurau ymgysylltu.

Awgrymwyd nad gyda'r Gweinidog yn uniongyrchol yn unig y mae'r ymgysylltu iawn yn digwydd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar ran y Gweinidog ac mae angen newid y cydbwysedd o ran y pwyslais a roddir ar ymgysylltu â'r Gweinidog a swyddogion.

Cytunwyd bod paratoi cyn-cyfarfod yn hanfodol a bod y cyfarfodydd Gweinidogol wedi amrywio yn y gorffennol, gyda rhai yn bositif ac eraill yn fwy anodd ac yn llai cynhyrchiol. Cytunwyd bod cyfarfodydd cynllunio yn hanfodol i ddewis pwyntiau amlwg i'r agenda ac y dylai Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector fod â diben cyffredin. Teimlid bod cynnwys y cyfarfodydd yn bwysig ac na ddylid bod unrhyw ddyblygu ar draws cyfarfodydd Gweinidogol.

Dywedodd Eleanor Marks fod y Gweinidog presennol dros Gymunedau a Mynd i'r Afael â Thlodi wedi mynychu cyfarfod trydydd sector a oedd wedi'i drefnu ar ei ddiwrnod cyntaf llawn yn y swydd. Y mae gan Weinidogion ddiddordeb ac mae angen ymgysylltu da o'r ddwy ochr i sicrhau perthynas waith gadarnhaol yn y dyfodol. Mae angen cael sgwrs aeddfed, ddwy ffordd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pherthynas agored o'r ddwy ochr er mwyn cymryd rhan mewn sgwrs am gyflwyno a chyd-gynhyrchu go iawn.

Trafodwyd y *Rhaglen ar gyfer Gweithredu* fel ffordd o ganfod tir cyffredin a'i gwneud yn bosibl i osod blaenoriaethau ar gyfer y sector gyda'r Llywodraeth.

Cytunwyd bod angen cylch gwaith cliriach ar gyfer ffrydiau gwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac mae angen iddynt fod â mwy o ffocws a bod wedi'u cyfyngu'n fwy gan amser. Gallai *Rhaglen ar gyfer Gweithredu* weithio'n ymarferol ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol ar Gynllun y Sector Gwirfoddol (Trydydd).

Awgrymwyd y byddai *angen* i *Raglen ar gyfer Gweithredu* nodi materion ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd, materion ar gyfer rhannau o'r sector,

materion ar gyfer sefydliadau a materion penodol lle y gallai Llywodraeth Cymru arwain, er enghraifft, wrth edrych ar y ffordd orau y gellid defnyddio adnoddau Tîm y Trydydd Sector. Awgrymwyd y gallai grŵp swyddogion mewnol godi ymwybyddiaeth ar draws adrannau'r Llywodraeth am faterion y Trydydd Sector, ac y gallai gwybodaeth allweddol gael ei chynnwys ym mhrosesau ymsefydlu Llywodraeth Cymru.

Cafodd syniadau gwahanol ynghylch sut y mae cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ei hun yn gweithio eu rhannu, gan gynnwys cyfarfodydd hirach, symud y cyfarfodydd o amgylch Cymru a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus mwy agored. Roedd cydweithwyr yn y trydydd sector yn amheus ynghylch y syniad o grŵp gweithrediaeth ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector oherwydd gallai cael cyfarfodydd llai deimlo fel pe baent yn allgau pobl. Eglurwyd y gallai grŵp bach o bobl i brofi syniadau, rhannu meddyliau a gyrru pethau ymlaen (fel Grŵp Cyfeirio'r Trydydd Sector drwy gydol y broses ymgynghori) gefnogi Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mewn ymateb, awgrymwyd na fyddai'n ddefnyddiol rhoi haen arall rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector a phe bai Llywodraeth Cymru yn awyddus i ymgynghori â'r sector, gallent ddefnyddio CGGC i wneud hynny. Os nad oedd CGGC yn teimlo ei bod yn iawn i ateb yn fras ar ran y sector, byddent yn trosglwyddo'r gwaith i'r person cywir. Awgrymwyd bod y Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn ymddiried yn CGGC i hwyluso'r gynrychiolaeth gywir ar wahanol faterion ac i rannu gwybodaeth yn ehangach pan fo angen.

Gwnaed un sylw ar y diwedd bod yr ymgynghoriad yn broses gadarnhaol yn y ffordd gyffredinol mae wedi datblygu a bod y sector yn teimlo'n eithaf optimistaidd am symud ymlaen gyda'n gilydd.

Cytunwyd i gynnal cyfarfod ychwanegol pellach o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ym mis Medi cyn cyfarfod llawn Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ym mis Tachwedd.

Ar ôl cymeradwyo'r cofnodion hyn yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar 25 Medi 2013, cytunwyd i nodi'r pwyntiau canlynol:

Yn gyffredinol, cytunwyd ar y cofnod o'r cyfarfod fel un teg, ond nod oedd digon o bwys ar rai materion allweddol, megis:

- Consensws cyffredinol nad oedd croeso i ddyraniad cyllid o 10% ar gyfer arloesi
- Yr angen i gynnal patrwm rheolaidd o gyfarfodydd Gweinidogol.